



**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**PARTNERIAETH OGWEN**

**2022**



## Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Ogwen 2022

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn gofnod o waith Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2021 a Tachwedd 2022. Mae'r adroddiad yn crynhoi prif brosiectau'r Bartneriaeth gan dynnu sylw at ymdrechion staff a gwirfoddolwyr Partneriaeth Ogwen yn ystod y flwyddyn.

### Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen

*Cyd-greu dyfodol lle mae'r economi, yr iaith a'r diwylliant, yr amgylchedd a'n cymuned yn ffynnu.*

Yn unol â'n Cynllun busnes 2019-2022, gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau, economi ac amgylchedd Dyffryn Ogwen.

Rydym yn amcanu i wneud hyn trwy:

- Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf.
- Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd.
- Atgyfnerthu ein polisïau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr.
- Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn, cynaliadwy a chydnerth.
- Cydweithio yn arloesol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Yn 2021, mabwysiadwyd Llwybr Trawsnewid (Theory of Change) sy'n gosod amcanion a deilliannau byrdymor a hir dymor i'n gwaith a gosod fframwaith i fesur effaith ein prosiectau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cydfynd â'r targedau a amlinellwyd yn ein Llwybr Trawsnewid gan osod cyrhaeddiad ein gwaith yn erbyn y targedau 2 flynedd a osodwyd yn y cynllun hwnnw.

## LLWYBR TRAWSNEWID PARTNERIAETH OGWEN



| Cyd-destun                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Gweithgareddau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Allbynnau                                                                                                                                                                                                                                                                                | Deilliannau Byr Dymor                                                                                                                                                                                                    | Impact Hir Dymor                                                                                                                                                                                                                 |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>CREU BUDD CYMUNEDOL</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                  |
| <b>CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL</b><br><br>Yn ôl arolwg cymunedol 2020, roedd 82% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned.<br>Roedd 83% o ymatebwyr hefyd yn teimlo i raddau bod pobl yna i'w helpu os oes angen.<br>Dim ond 8% o ymatebwyr arolwg cymunedol 2020 oedd dan 25 oed.                                                                              | Cynnal swyddfa Ogwen ar y Stryd Fawr fel pwynt cyswllt ar gyfer 3 Chyngor Cymuned y daalgylch.<br>Darparu gwasanaeth clericio i'r 3 chyngor cymuned.<br>Datblygu cyfleon gwirfoddoli amrywiol trwy brosiectau Dyffryn Gwyrdd, Slop Ogwen a Chadwyn Ogwen.<br>Ymgynghori â pobl ifanc a darparu profiadau gwaith, prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiadau gwirfoddoli amrywiol iddynt.                                                                                                                                                       | 1300 o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Ogwen bob blwyddyn.<br>Gwasanaeth clericio o safon i 3 chyngor cymuned.<br>Trefn recriwtio, cofnodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn lle.<br>3 o bobl ifanc (16-24 oed) yn gwirfoddoli/gweithio efo Partneriaeth Ogwen bob blwyddyn.              | Mwy o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli a chyfrannogi yn Nyffryn Ogwen.<br>Cyswllt agosach rhwng y gymuned a'r 3 Chyngor Cymuned lleol.<br>Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn eu cymunedau a mwy o arweinyddwyr cymunedol. | Cyfranogiad uwch gan ein cymuned a phobl ifanc mewn prosiectau datblygu cymunedol a democratiaeth lleol.<br>Iechyd a Lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu yn ein cymuned.                                                      |
| <b>ATAL TLODI AC UNIGEDD</b><br><br>Mae tair o wardiau DO ymhlith y 25% mwyaf difreitedig yng Nghymru<br>Mae 1458 o ddefnyddwyr i'r banc bwyd lleol rhwng mis Mawrth 2020 a Mai 2021.<br>Nid oes gan 26.6% o drigolion lleol fynediad at gar a mae cludiant yn broblem iddynt<br>7.2% o drigolion y dyffryn yn byw mewn tldi tanwydd o gymharu a cyfartaledd Cymru o 2.3% | Datblygu cynllun a Hwb Dyffryn Gwyrdd i atal tldi yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys prosiectau penodol i fynd i'r afael a thldi tanwydd, tldi bwyd a thldi trafndiaeth.<br>Datblygu Banc Bwyd a Chynllun Rhannu Bwyd Dyffryn Ogwen trwy ddoosbarthu bwyd a chydlynu tim o wirfoddolwyr.<br>Datblygu Cynllun Cyfaill Cymunedol i ddanfion prydau poeth, lleihau unigedd a hyrwyddo cynhwysiant digidol.<br>Sefydlu cynllun cludiant cymunedol gwyrdd fydd yn cludo trigolion mewn tldi trafndiaeth i apwyntiadau meddygol, gwaith a chymdeithasol. | Cyfeirio 300 o drigolion at wasanaethau cymorth Dyffryn Gwyrdd ac asiantaethau eraill bob blwyddyn<br>1000 o becynnau cymorth bwyd yn cael eu rhannu bob blwyddyn.<br>1000 o brydau Cyfaill Cymunedol yn cael eu darparu bob blwyddyn.<br>100 o deithiau blynyddol yn y cerbyd cymunedol | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu allan o dldi ac unigedd.<br>                                                                                                                     | Llai o dldi yn Nyffryn Ogwen gyda llai o bobl yn gorfod defnyddio'r banc bwyd a llai o bobl mewn tldi trafndiaeth.<br>Cydwethio agosach gyda asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i drigolion sy'n dioddef tldi ac unigedd. |

| Cyd-destun                                                                                                                                                                                                                  | Gweithgareddau                                                                                                                                                                                                                                      | Allbynnau                                                                                                                                                     | Deilliannau Byr Dymor                                                                                                                                                                                                                | Impact Hir Dymor                                                                                                                                          |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>CREU BUDD AMGYLCHEDDOL</b>                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                           |
| <b>PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESIAINT</b><br><br>Mae nifer o brosiectau tyfu cymunedol yn y dyffryn ac awydd i blannu mwy at ddibenion atal tiodi bwyd a llesiant.                      | Prosiect Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd yn cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol (e.e. Sesiynau Efeicio a Sesiynau Plannu Cymunedol)<br><br>Ardaloedd gwyrdd cymunedol newydd i gael eu adnabod a'u datblygu. | 50 o sesiynau llesiant a'r amgylchedd wedi eu cynnal.<br><br>3 ardal werdd gymunedol wedi eu datblygu a gardd Llys Dafydd wedi ei adfywio'n natur gyfeillgar. | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth i ddod allan o dodi tanwydd.<br><br>Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn dod a buddion llesiant ac amgylcheddol.<br><br>Mwy o ardaloedd gwyrdd yn cael eu cynnal yn lleol. | Ol troed carbon y Dyffryn yn lleihau.<br><br>Cydwethio agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ceisio atal tiodi tanwydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynuni. |
| <b>TACLO NEWID HINSAWDD</b><br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd Atal newid hinsawdd yn bwysig i 81% o'r ymatebwyr.<br><br>Roedd 87% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gennym gyfle i greu amgylchedd a chymuned gynaliadwy. | Prosiect GwyrddNi i ddechrau yn 2021 gyda bwriad i ddatblygu Cynulliad Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Prosiectau amgylcheddol newydd yn cael eu sefydlu yn cynnwys bws gwennol trydan a cherbyd trydan cymunedol.                          | Cynulliad Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.<br><br>Gwasanaeth bws gwennol a cherbydau trydan wedi ei sefydlu.               | Pobl leol yn cydwethio i dacio newid hinsawdd<br><br>Llai o allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol.                                                                                                                                | Dyffryn Ogwen yn arwain o ran datblygu cynaliadwy cymunedol.<br><br>Math newydd o dwristiaid yn dod i'r ardal ac yn cefnogi'r economi lleol.              |

|                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>CREU BUDD IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL</b>                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                           |
| Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 85% o ymatebwyr yn credu fod Dyffryn Ogwen yn gyfoethog o ran iaith, diwylliant a threftadaeth.<br><br>Roedd 59% yn poeni am ddyfodol y Gymraeg. | Parhau i gynnal gweithleoedd, cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cyfrwng Gymraeg yn Nyffryn Ogwen.<br><br>Parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen - siop lyfrau Gymraeg a chrefftau ar y Stryd Fawr Bethesda.<br><br>Arwain prosiectau diwyllianol perthnasol e.e. dathliadau 200 mlwyddiant Bethesda<br><br>Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau lleol | 3 gweithle cyfrwng Gymraeg yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth<br><br>Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ar y Stryd Fawr a chynyddu gwerthiant arlein ac mewn marchnadoedd lleol.<br><br>5 digwyddiad/gweithgaredd treftadaeth bob blwyddyn<br><br>50 o fusnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar ogwen.cymru a Cadwyn Ogwen. | Mwy o weithleoedd cyfrwng Gymraeg.<br><br>Mwy o gyfleoedd i weithio yn Gymraeg<br><br>Pobl leol yn cael cyfle i ddatblygu treftadaeth a diwylliant<br><br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau. | Normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith<br><br>Codi hyder pobl i ddefnyddio'u Gymraeg yn y gwaith.<br><br>Cynnal y Gymraeg a'r diwylliant yn lleol<br><br>Mwy o statws i'r Gymraeg ymysg y sector fusnes. |



| Cyd-destun                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Gweithgareddau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Allbynnau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Deilliannau Byr Dymor                                                                                                                                                                                                                                                                         | Impact Hir Dymor                                                                                                                          |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>CREU BUDD ECONOMAIDD</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                           |
| <b>ADFYWIO STRYD FAWR A CHEFNOGI BUSNESAU BACH</b><br><br>Mae nifer y siopau sydd wedi cau ar Stryd Fawr Bethesda ar gynnydd a busnesau bach a chanolig yn wynebu cyfnod anodd yn sgîl Covid-19.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 74% yn teimlo nad oedd cyfleoedd gwaith addas ar gael yn lleol a 71% yn credu nad oedd digon o gyfleoedd i ehangu sgiliau a busnes.<br><br>Yn ol arolwg cymunedol 2020, roedd 88% yn credu fod prynu cynnyrch lleol yn bwysig. | Prynu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr i'w cadw mewn perchnogaeth leol a'u rhentu allan i fusnesau eraill neu gynnal prosiectau ohonynt.<br><br>Datblygu gwasanaeth Cadwyn Ogwen - gwasanaeth archebu a danfon cynnyrch lleol mewn cerbyd trydan cymunedol.<br><br>Darparu gwasanaethau cefnogi busnes ar lefel micro yn ein cymunedau.<br><br>Cynnal gwefan <a href="http://www.ogwen.cymru">www.ogwen.cymru</a><br><br>Trefnu gweithgareddau i adfywio'r Stryd Fawr yn cynnwys digwyddiadau yn Llys Dafydd. | 90% o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flwyddyn.<br><br>20 o fusnesau lleol yn gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen.<br><br>Cydwethio neu gefnogi 30 o fusnesau lleol bob blwyddyn.<br><br>Cynyddu y nifer o fusnesau lleol sydd efo presenoldeb ar wefan <a href="http://www.ogwen.cymru">www.ogwen.cymru</a><br><br>Cynnal 10 o ddigwyddiadau yn Llys Dafydd bob blwyddyn gan gofnodi cynnydd footfall y Stryd Fawr ar system fonitro Patrwm. | Mwy o siopau ar agor ar y Stryd Fawr.<br><br>Cynhyrchwyr lleol efo 'outlet' lleol ar-lein i'w cynnyrch.<br><br>Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu<br><br>Mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr.                                                                                                | Pobl leol yn cefnogi busnesau lleol.<br><br>Busnesau micro lleol yn tyfu a ffynnu.<br><br>Buddsoddwyr preifat yn agor siopau yn yr ardal. |
| <b>ECONOMI WERDD</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Datblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Ragoriaeth Cynaliadwydd gyda gofod byncws, datblygu economaidd a gofod amlwrpas i'w logi allan.<br><br>Datblygu prosiectau twristiaeth Gynaliadwy a Chymunedol<br><br>Paratoi ceisiadau grant i sefydlu bws gwennol trydan fyddai'n cludo ymwelwyr o Ddyffryn Ogwen i fyny i Nant Ffroncon ac yn ol.                                                                                                                                                                | Canolfan Cefnfaes wedi ei adnewyddu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Prosiect Twristiaeth Gymunedol Dolan wedi ei ddatblygu erbyn Gwanwyn 2022.<br><br>Cynllun Bws Gwennol Trydan wedi ei sefydlu erbyn 2022.                                                                                                                                                                                                                                                        | Ased cymunedol wedi ei uwchraddio er budd ein cymuned, amgylchedd ac economi.<br><br>Cymunedoli'r sector dwristiaeth yn lleol a lle'n bosibl, perchnogi rhai asedau twristiaid.<br><br>Lleihau problemau parcio yn Nant Ffroncon a chynyddu'r budd economaidd lleol gan dwristiaid i'r ardal. | Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth.                                                                                   |



## Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd Partneriaeth Ogwen

### Staff

Prif Weithredwr – Meleri Davies

Dirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Gweinyddol – Donna Watts

Clerc a Swyddog Gweinyddol – Bethan Griffith

Clerc – Caroline Jones

Swyddog Cyllid – Lliwen Morris

Gofalwr Eiddo – Dylan Jones

Gyrrwr Cymunedol – Colin Jeffreys

Gyrrwr Cymunedol – Efan Thomas

Rheolwr Prosiect Gwaith Ymgynghorol – Cynan Jones

Rheolwr Dyffryn Gwyrdd – Huw Davies

Swyddog Llesiant a'r Amgylchedd – Judith Kaufmann

Cydlynnydd Beics Ogwen – Tom Simone

Gyrrwr Cymunedol Dyffryn Gwyrdd – Dewi Roberts

Swyddog Cefnogi Dyffryn Gwyrdd – Menna Thomas

Swyddog Cadwyn Ogwen a Pantri Pesda – Lucinda Enston

Swyddog Datblygu Siop Ogwen – Elen Williams

Cyfaill Cymunedol – Anna Sethi

Cydlynnydd Prosiect Petha – Catrin Wager

Swyddog Cefnogi Prosiect Petha – Kerry Walters

Warden Ynni – Ianto Shea

Swyddog Cefnogi Prosiectau – Chris Roberts

## **Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen**

Dafydd Meurig

Dafydd Owen tan fis Mai 2022 - Einir Williams o fis Mai 2022 ymlaen

Rheinallt Puw

Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Neville Hughes, Dyfrig Jones, Godfrey Northam, Michael Williams, Bleddyn Williams)

Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Jen Morris, Lowri Evans) \*Geraint Hughes wedi sefydd lawr fis Ebrill 2022

Cyngor Cymuned Llandygai (Dafydd Owen, Mair Owen Pierce a Huw Jones)

## **Pwyllgor Rheoli**

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:

Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda

Dafydd Meurig – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Chynghorydd Sir

Jen Morris – Cynghorydd Cymuned Llanllechid

Dyfrig Jones – Cynghorydd Cymuned Bethesda

Einir Williams – Cynghorydd Sir

Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Llandygai

Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir

## CYMUNED



## CYNNAL CYMUNED GYNHWYSOL

Yn 2022, rydym wedi parhau i gefnogi ein cymuned wrth i ni ddod allan o bandemig byd eang a wynebu argyfwng newydd, sef yr argyfwng costau byw. Mae'r heriau o unigedd a thlodi yn wynebu nifer o aelwydydd yn y Dyffryn a'n bwriad yw cydweithio i helpu ein cymuned. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda'r rhwydwaith o gynghorwyr cymuned a sir yn yr ardal a chydweithio agos gyda mentrau a grwpiau gwirfoddol lleol.

### Cynghorau Cymuned

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clerco i dri Chyngor Cymuned - Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clerco yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cynghorau. Mae'r Clercod yn arwain hefyd gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Is-bwyllgorau Cyllid y cynghorau. Yn 2022, rydym wedi ailstrwythuro'r gwasanaeth clerco gan greu tîm o staff proffesiynol i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r cynghorau. Arweinir y gwasanaeth gan Donna Watts gyda Bethan Wyn Roberts yn clerco i Gyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Llandygai a Caroline Jones yn clerco i Gyngor Cymuned Llanllechid.

Gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Bethesda a Llandygai, cyflogir Lucinda Enston hefyd fel Swyddog Cynnal i gasglu sbwriel yn yr ardal.

Yn ogystal â'r gwaith clericio, mae'r clerod wedi cydweithio i osod cicwyr calon yn yr ardal a chefnogi'r cynghorwyr gyda gwaith i wella arhosfannau bws yn ystod y flwyddyn.

### **Swyddfeydd Partneriaeth Ogwen**

Yn ystod 2022, rydym wedi ehangu ein gweithleoedd gyda Swyddfa Partneriaeth Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd a Pantri Pesda yn ofodau gwaith i'n staff. Rydym hefyd yn gweithio o Ganolfan Cefnfaes ble mae prosiect Beics Ogwen wedi ei leoli. Mae'r staff wedi bod yn gweithio'n hybrid yn ystod 2022 wrth i ni ddod allan o'r clo ar ôl Covid-19 a bwriedir parhau gyda'r hyblygrwydd yma o safbwynt hyrwyddo iechyd a lles ein gweithle. Mae ymwelwyr a'r swyddfeydd yn parhau'n gyson ac yn amrywio o ymholiadau am yr heddlu, ceisiadau am gymorth neu ymholiadau am wasanaethau.

### **Gwirfoddoli**

Mae gan Bartneriaeth Ogwen dros 100 o wirfoddolwyr gyda'r gwirfoddolwyr hyn yn ein helpu gyda gwahanol brosiectau yn cynnwys casglu sbwriel, difa chwyn ymledol, rhannu bwyd yn Pantri Pesda a gwirfoddoli gyda Siop Ogwen. Arweinir y gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr gan dîm Dyffryn Gwyrdd y Bartneriaeth a mae Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn rhan o'r tîm a ariennir gan gronfa'r Loteri.

### **Cyfleoedd i bobl ifanc**

Mae cynnig cyfleoedd gwaith i bobl leol yn rhywbeth rydym yn ymhyfrydu ynddo a rydym wedi manteisio ar gynlluniau fel Llechi, Glo a Chefn Gwlad, Kickstart a Byw a Bod i gyflogi pobl ifanc dros y blynyddoedd. Yn 2022, rydym wedi cadw 2 weithiwr ifanc fu'n rhan o gynllun Kickstart efo ni yn 2021 gan gynnig swyddi newydd iddynt ar brosiectau eraill dan ofal y Bartneriaeth. Mae Ianto Shea bellach yn gweithio fel Warden Ynni ar brosiect Sero Net Gwynedd i ni a mae Morgan Rees Evans yn parhau i weithio fel Gweinyddwr Siop yn Siop Ogwen ar ôl ei brentisiaeth trwy gynllun Kickstart. Mae Anna Sethi hefyd wedi parhau i weithio i Bartneriaeth Ogwen fel Cyfaill Cymunedol ar ôl bod yn rhan o gynllun Byw a Bod yn 2021. Mae'n dda nodi fod Anna bellach wedi derbyn swydd newydd efo ni fel Cydlynnydd Gwirfoddolwyr a Llesiant. Yn ystod y flwyddyn, mae pobl ifanc wedi cael profiadau gwaith a gwirfoddoli gyda ni yn cynnwys 5 disgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen fu efo ni am wythnos ym mis Gorffennaf 2022. Rydym hefyd yn cydweithio yn agos gyda'r ysgolion lleol wrth ddatblygu a gweithredu nifer o'n brosiectau gan gynnig cyfleoedd gwirfoddoli neu brofiadau ymarferol gyda phrosiectau fel y Gofod Gwneud a chasglu bwyd i Pantri Pesda. Mae'r berthynas gyda Ysgol Dyffryn Ogwen yn gymorth yn hyn o beth.

O ran ein cyflawniad yn erbyn targedau a deilliannau'r Llwybr Trawsnewid, nodwn gyflawniad uwch na'r targedau a nodwyd a llwyddiant o safbwynt y deilliannau byr dymor. Mae sylwadau am botensial impact hir dymor ein brosiectau 'Cynnal Cymuned Gynhwysol' ar waelod y tabl nesaf.



## Targedau Llwybr Trawsnewid – Cynnal Cymuned Gynhwysol

| Targedau Llwybr Trawsnewid – Cynnal Cymuned Gynhwysol                                                                           |                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                  |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|
| Gweithgaredd                                                                                                                    | Targed Allbwn                                                                          | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Deilliannau Byr Dymor Wedi eu Cyflawni                                           |
| <b>Cynnal swyddfa Ogwen ar y Stryd Fawr fel pwynt cyswllt ar gyfer 3 Chyngor Cymuned y dalgylch.</b>                            | 1300 o ymweliadau gan drigolion i swyddfa Ogwen bob blwyddyn.                          | Ymweliadau yn ystod 2022 = 570 ymwelydd â Swyddfa Dyffryn Gwyrdd a 1,200 Partneriaeth Ogwen                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Cyswllt agosach rhwng y gymuned a'r 3 Chyngor Cymuned lleol.                     |
| <b>Darparu gwasanaeth clericio i'r 3 chyngor cymuned.</b>                                                                       | Gwasanaeth clericio o safon i 3 chyngor cymuned.                                       | Parhau i gynnal gwasanaeth clericio i'r 3 Chyngor Cymuned gyda 32 o gyfarfodydd Cynghor Cymuned wedi eu gweinyddu yn ystod 2022.                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                  |
| <b>Datblygu cyfleon gwirfoddoli amrywiol trwy brosiectau Dyffryn Gwyrdd, Siop Ogwen a Chadwyn Ogwen.</b>                        | Trefn recriwtio, cofnodi a chefnogi gwirfoddolwyr mewn lle.                            | Cyfleon gwirfoddoli newydd yn ystod 2022 yn cynnwys plannu cymunedol, rhannu bwyd yn Pantri Pesda a gweithdai beics.                                                                                                                                                                                                                                                          | Mwy o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli a chyfrannogi yn Nyffryn Ogwen.                |
| <b>Ymgynghori â pobl ifanc a darparu profiadau gwaith, prentisiaethau, cyflogaeth a phrofiadau gwirfoddoli amrywiol iddynt.</b> | 3 o bobl ifanc (16-24 oed) yn gwirfoddoli/gweithio efo Partneriaeth Ogwen bob blwyddyn | 2 berson ifanc dan 24 oed ar gyflogres Partneriaeth Ogwen yn ystod 2022 a 2 berson ifanc yn gweithio i Siop Ogwen. Yn ystod 2020-22, mae 3 person ifanc wedi gweithio efo ni fel rhan o gynllun Byw a Bod, 2 trwy gynllun Kickstart ac un trwy gynllun profiad gwaith Coleg Llandrillo Menai. Daeth 5 o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen atom ar brofiad gwaith yn 2022 hefyd. | Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn eu cymunedau a mwy o arweinwyr cymunedol. |
| TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR—                                                                                                      |                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                  |

- Cyfranogiad uwch gan ein cymuned a phobl ifanc mewn prosiectau datblygu cymunedol a democratiaeth lleol.
- Iechyd a Lles ac ymdeimlad o berthyn yn cynyddu yn ein cymuned.

#### SYLWADAU AR BOTENSIAL IMPACT HIR DYMOR AR SAIL 2 FLYNEDD O WEITHREDU'R UCHOD

Nodwn fod nifer y gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â phrosiectau'r Bartneriaeth yn cynyddu a bod pobl ifanc wedi gweithio a gwirfoddoli efo Partneriaeth Ogwen dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cynlluniau fel Byw a Bod a chynllun Llechi, Glo a Chefn Gwlad wedi'n helpu i greu arweinwyr cymunedol newydd a mae prosiectau yn grymuso a rhoi cyfleoedd gwirfoddoli newydd. Mae'r dyfyniad isod yn enghraifft o ddefnyddiwr Pantri Pesda sydd bellach yn gwirfoddoli gyda'r cynllun. Mae hyn yn amlygu cylch ac impact hidrymor ble rydym yn helpu ac yna'n grymuso aelodau o'n cymuned i gymryd rhan, gweithredu a rhoi yn ôl.

*"Dwi wedi defnyddio'r banc bwyd fy hun, mae'n neis cael rhoi rwbath yn ol. Mae yna deimlad braf, mae'n dod a'r gymuned at ei gilydd"*

Mae nifer y prosiectau iechyd a lles rydym yn ei redeg wedi cynyddu a mae adroddiad Gwerth Budd Cymdeithasol annibynnol ar waith prosiect Dyffryn Gwyrdd yn nodi fod £10.73 o fudd yn deillio o bob £1 o fuddsoddiad yn y prosiect. Nid oes adroddiad wedi ei wneud ar Werth Budd Cymdeithasol holl brosiectau Partneriaeth Ogwen a'n bwriad yw gwneud un ar y sefydliad cyfan.

## ATAL TLODI

Mae nifer o'n prosiectau cymunedol yn mynd i'r afael a heriau tloidi yn ein cymuned. Mae rhain yn cynnwys rhedeg cynllun Pantri Pesda a phrosiectau sy'n lleihau unigedd gwledig a thloidi trafnidiaeth. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o gynllun Dyffryn Gwyrdd y Bartneriaeth.

### Pantri Pesda

Ddiwedd 2021, adleolwyd Pantri Pesda i hen siop yn 55 Stryd Fawr, Bethesda gan groesawu aelodau o'n cymuned yno i rannu a derbyn bwyd. Mae dwy agwedd i waith Pantri Pesda sef datblygu cynlluniau i atal tloidi bwyd yn y dyffryn a lleihau gwastraff bwyd. Gyda chymorth grant gan Lywodraeth Cymru, telir Fareshare am stoc o fwyd yn wythnosol a dosbarthwyd y bwyd yma i'n cymuned mewn sesiynau rhannu bwyd wythnosol. Heb gynllun Fareshare, byddai'r bwyd yma wedi mynd i dirlenwi felly mae amcanion amgylcheddol pendant i'r cynlluniau rhannu bwyd. Ers cychwyn cofnodi data Pantri Pesda yn Awst 2020, mae gwerth 21081kg o fwyd wedi ei ddosbarthu yn ein cymuned.

Yn ogystal â'r cynllun Fareshare, mae prosiect Pantri Pesda hefyd yn darparu pecynnau bwyd argyfwng i unrhyw unigolion neu deuluoedd sydd angen parseli bwyd. Yn ystod 2021/22, dosbarthwyd 309 o becynnau bwyd i unigolion neu deuluoedd oedd angen cymorth. Yn ystod 2022, mae 2098 o bobol wedi ymweld â Pantri Pesda ac mae chwech o wirfoddolwyr selog yn helpu gyda'r gwaith dosbarthu bwyd. Mae unigolion a grwpiau lleol hefyd yn cyfrannu rhoddion yn gyson i'r Pantri, yn cynnwys casgliadau yn siop Llonis a chyfraniadau gan y capeli lleol.

Rydym hefyd yn gweithio efo mudiadau eraill gan ddefnyddio ein cerbydau trydan i gasglu a danfon bwyd yn ein cymuned. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Bwyd Da Bangor ar gynllun i ddanfon pecynnau bwyd wythnosol i rai o'r trigolion mwyaf anghenus yn Nyffryn Ogwen.

Yn ystod 2022 hefyd, rydym wedi paratoi pecynnau ryseitiau a fideos coginio sy'n defnyddio cynnyrch Pantri Pesda. Mae'r rhain yn cynnig ryseitiau fforddadwy sy'n defnyddio'r math o eitemau sy'n cael eu cynnwys mewn parseli bwyd. Byddwn yn trefnu sesiynau coginio ar y cyd i adeiladu ar y gwaith yma gan roi cyfle i bobl ddod at ei gilydd i goginio, rhannu a chymdeithasu.







# BISGEDI MENYN CNAU MWNCI

12 BISGED

## CYNWHYSION

- 1 cwpan menyn cnau mwnci (llyfn neu grensiog)
- 1 cwpan siwgr (leihau siwgr os oes siwgr yn y menyn cnau mwnci)
- 3 llwy fwrdd o aquafaba – y sudd o tun o gwygbys

## DULL

- Cynheswch y popty i 180°C / Marc nwy 5 a leiniwch bapur pobi â phapur gwrthsaim (os nad oes gennych bapur gwrthsaim – rhwblwch ychydig o olew yn syth ar y daflen pobi i sicrhau nad yw'r cwciis yn glynu)
- Mewn powlen cymysgwch yr holl gynhwysion yn dda iawn
- Gan ddefnyddio llwy, tynnwch ychydig o does allan ac yna rholiwch yn belen fach gyda'ch dwylo a'i rhoi ar y daflen bobi. Unwaith y bydd y toes i gyd wedi'i ddefnyddio, defnyddiwch ffôr i wneud siâp cris-croes ar bob pâl a gwrthiwrch lawr fymryn bach i greu siâp cwci wrth i chi ei wneud.
- Coginiwch am 10-15 munud (bydd hyn yn dibynnu ar eich popty a sut rydych chi'n hoffi'ch cwciis - pobwch yn agosach at 15 munud ar gyfer cwciis crensiog a meddal tu fewn).
- Gadewch i oeri am 15 munud cyn bwyta!



COST Y PERSON  
O DAN  
10c

GOFYNIAD  
YNNI

Popty



FIGAN

*Un o ryseitiau fforddiadwy Pantri Pesda*

## Hwb Dyffryn Gwyrdd

Mae hwb y Dyffryn Gwyrdd ar y Stryd Fawr yn gartref i staff prosiect y Dyffryn Gwyrdd ond hefyd yn hwb i ddosbarthu gwybodaeth ac adnoddau i'n cymuned. O'r ganolfan, rydym yn dosbarthu gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni, cyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol, gwybodaeth am gludiant cymunedol ac offer casglu sbwriel a llawer mwy. Rydym hefyd yn gweithio gyda asiantaethau allanol i ddosbarthu gwybodaeth. Yn ystod 2022, rydym wedi gweithio efo *Citizens Online* a *Cyngor ar Bopeth* i gynnal sesiynau wythnosol i unigolion sydd angen cymorth i fynd ar-lein.

Un o'r gwasanaethau a gynigir i drigolion lleol trwy brosiect y Dyffryn Gwyrdd yw gwasanaeth Warden Ynni Lleol (cyflogir y warden gyda chyllid grant prosiect Sero Net Gwynedd). Gwaith y warden yw ymweld a chartrefi lleol i wneud asesiadau effeithlonrwydd ynni cychynnol gan gynnig gwybodaeth am sut i leihau costau ynni a gweithredu'n fwy

effeithlon. Mae'r Warden wedi dosbarthu pamffledi cartrefi ar draws y Dyffryn cyfan ac wedi rhoi cyngor un i un i 208 cartref. Yn ogystal â'r ymweliadau, mae'r Warden hefyd yn gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth trwy fynychu boreau coffi, dosbarthu gwybodaeth yn Pantri Pesda ac mewn ffeiriau lleol. Mae'r staff hefyd wedi gweithio gyda Elusen Ogwen i ariannu pecynnau effeithlonrwydd ynni i'w dosbarthu i holl ddisgyblion ysgolion y Dyffryn. Mae'r bagiau hyn yn cynnwys 2 fylb LED a thafleddi gwybodaeth i wella effeithlonrwydd ynni.



*Ianto Shea, Warden Ynni Prosiect Sero Net Gwynedd a Huw Davies Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn rhannu bagiau Effeithlonrwydd Ynni a ariannwyd gan Elusen Ogwen a phrosiect y Dyffryn Gwyrdd*

### **Cyfaill Cymunedol**

Yn ystod y flwyddyn parhaodd ein cynllun i ddanfod prydau cynnes i'r henoed ar draws y Dyffryn mewn partneriaeth a Chaffi Coed y Brenin. Trefnwyd nifer o deithiau i leoliadau megis Canolfan Arddio Fron Goch i grwpiau a nifer o brynhawniau coffi yng Nghanolfan Cefnfaes. Dros gyfnod y Llwybr Trawsnewid 2020-22, rydym wedi cynnal 17 prynhawn coffi Cyfaill Cymunedol gan ddod a chyfanswm o 286 o fynychwyr ynghyd. Rydym hefyd wedi cynnal 25 Taith Grwp Cyfaill Cymunedol gan gynnig tripiâu cymdeithasol i 128 o fynychwyr. Mae'r adborth yma wedi bod yn hynod galonogol gan gynnig cyfleon cymdeithasol i'r henoed ar ôl cyfnod heriol y clo. Roedd y pŵerau coffi hefyd yn gyfle i gyfeirio pobl at wasanaethau cefnogi amrywiol megis gwasanaeth y Warden Ynni.





*Bingo yn un o Brynhawniau Coffi Dyffryn Gwyrdd*

Adborth un o fynychwyr pwnniau coffi 'Cyfaill Cymunedol':

*“Diolch i chdi am trefnu y digwyddiadau yma, does dim llawer yn mynd ymlaen yn y pentref i ni felly mae'r prynhawniau coffi yma'n bwysig iawn i ni”*

Mae'r gwasanaeth a weithredir mewn partneriaeth gyda Chaffi Coed y Brenin wedi parhau'n boblogaidd gyda bwyd cartref maethlon yn cael ei ddanfoni i gartrefi lleol unwaith yr wythnos. Yn ogystal, bu'n Cyfaill Cymunedol yn lleihau unigedd gwledig trwy wneud ymweliadau a chartrefi rhai o aelodau hyn ein cymuned. Roedd yr ymweliadau'n gyfle am baned a sgwrs a roedd cyfle i'w hebrwng i'r siop neu i'r feddygfa hefyd. Un o'r cymeriadau hyn oedd Wyn Roberts a gytunodd i gael ei recordio yn siarad am hen atgofion.



*Wynne Roberts yn cael ei ffilmio ar gyfer ffilm Cyfaill Cymunedol*

### **Cludiant Cymunedol**

Mae gan Bartneriaeth Ogwen fflyd o 4 cerbyd trydan bellach gyda'r cerbydau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer pwrpasau datblygu economaidd a chymunedol. Manylir ar y defnydd economaidd o Fws Ogwen yn adran Economi'r adroddiad hwn ond mae'r bws hefyd wedi dechrau cael ei ddefnyddio at bwrpas cymunedol ar gyfer teithiau ysgolion a theithiau i'r henoed.

Prif gerbyd cymunedol tîm Dyffryn Gwyrdd yw 'Efan' – cerbyd 7 sedd hygyrch sydd ar gael i fynd ag aelodau o'r gymuned i apwyntiadau cymdeithasol neu feddygol. Yn ystod 2022, mae Efan wedi cludo 213 o drigolion lleol i apwyntiadau gan leihau unigedd ond hefyd gyfrannu tuag at atal tlodi trafniadaeth yn ein cymuned. Mae Efan wedi gwneud 123 o dripiâu yn ystod 2022 yn gyfanswm o 2783 o filltiroedd.

Yn ogystal â'r cerbyd 7 sedd, mae tîm Dyffryn Gwyrdd hefyd yn defnyddio'r fan drydan i wneud casgliadau bwyd Fareshare yn wythnosol. Mae'r fan – Tryfan – yn cael ei defnyddio'n bennaf yng nghyswllt prosiect Cadwyn Ogwen.

Mae'r pedwerydd cerbyd yn 'gar rhannu cymunedol' sef car a brydlesir gan gynllun Co-Wheels i'w logi gan aelodau o'r gymuned yn ôl y galw. Mae'r car hwn yn lleihau dibyniaeth ein cymuned ar geir gan gynnig cyfleuster i'r rhai sydd ddim yn meddu ar gar ar hyn o bryd.

Cerbydau trydan yw holl fflyd Partneriaeth Ogwen ac ers pryniant y cerbydau mae'r cerbydau wedi teithio 42,400 milltir. Mae hwn yn arbediad allyriadau carbon yn ein cymuned a mae cyfran o'r gwefru wedi bod yn cael ei wneud trwy bwynt gwefru Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen ble mae Ynni Ogwen wedi gosod paneli solar cymunedol ar y to. Mae'n pwyslais ar greu fflyd drydan yn gyson â'n ymrwymiad cadarn i gynnaladwyedd ac egwyddorion yr economi gylchol yn ein gwaith.



*Dewi yn mynd a Wynne i weld bedd ei wraig ym Mynwent Coetmor*

| Targedau Llwybr Trawsnewid – Atal Tlodi                                                                                                                                      |                                                                                                    |                                                                                                                                                        |                                                                                                   |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gweithgaredd                                                                                                                                                                 | Targed Allbwn                                                                                      | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                                                                                          | Deilliannau Byr Dymor Wedi eu Cyflawni                                                            |
| <b>Datblygu cynllun a Hwb Dyffryn Gwyrdd i atal tlodi yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys prosiectau penodol i fynd i'r afael a thlodi tanwydd, tlodi bwyd a thlodi trafndiaeth.</b> | Cyfeirio 300 o drigolion at wasanaethau cymorth Dyffryn Gwyrdd ac asiantaethau eraill bob blwyddyn | 399 o ymwelwyr wedi eu cyfeirio at gymorth yn hwb Dyffryn Gwyrdd.<br>208 o gleientiaid wedi cael cymorth Warden Ynni.                                  | Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu allan o dlodi ac unigedd. |
| <b>Datblygu Banc Bwyd a Chynllun Rhannu Bwyd Dyffryn Ogwen trwy ddsbarthu bwyd a chydlynu tim o wirfoddolwyr.</b>                                                            | 1000 o becynnau cymorth bwyd yn cael eu rhannu bob blwyddyn.                                       | 1586 person wedi ymweld â'r pantri a derbyn bwyd trwy gynlluniau rhannu bwyd y Pantri. 309 pecyn bwyd argyfwng wedi cael eu rhannu yn 2021/22 a gwerth |                                                                                                   |



|                                                                                                                                                        |                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| <p><b>Datblygu Cynllun Cyfaill Cymunedol i ddanfôn prydau poeth, lleihau unigedd a hyrwyddo cynhwysiant digidol.</b></p>                               | <p>1000 o brydau Cyfaill Cymunedol yn cael eu darparu bob blwyddyn.</p> | <p>21081 kg o fwyd wedi ei arbed rhag mynd i dirlenwi.</p> <p>1772 o brydau Cyfaill Cymunedol wedi eu dosbarthu ers cychwyn y cynllun yn 2020. Ers 2020, 17 prynhawn coffi Cyfaill Cymunedol wedi eu cynnal gyda 286 o fynychwyr. 25 Taith Grwp Cyfaill Cymunedol wedi eu cynnal gyda 128 o fynychwyr.</p> |  |
| <p><b>Sefydlu cynllun cludiant cymunedol gwyrdd fydd yn cludo trigolion mewn tlodi trafndiaeth i apwyntiadau meddygol, gwaith a chymdeithasol.</b></p> | <p>100 o deithiau blynyddol yn y cerbyd cymunedol</p>                   | <p>123 taith wedi'u cynnal</p>                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |

#### TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR

- Llai o dlodi yn Nyffryn Ogwen gyda llai o bobl yn gorfod defnyddio'r banc bwyd a llai o bobl mewn tlodi trafndiaeth.
- Cydweithio agosach gyda asiantaethau eraill i ddarparu cefnogaeth i drigolion sy'n dioddef tlodi ac unigedd.

#### CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –

Credwn ein bod yn lleihau tlodi bwyd, tlodi tanwydd a thlodi trafndiaeth trwy ein cynlluniau. Ar hyn o bryd, mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn cynyddu ac mae hynny'n adlewyrchiad o'r argyfwng costau byw sy'n wynebu ein cymuned ar hyn o bryd. O ran cydweithio'n agosach gyda asiantaethau eraill, rydym yn sicr wedi ac yn cyflawni hyn ac edrychwn ymlaen i ddatblygu hybiau cynnes cymunedol yn Nyffryn Ogwen yn 2023 a pharhau i gydweithio ag ystod eang o asiantaethau cymorth.

# AMGYLCHEDD

## PROSIECTAU TYFU CYMUNEDOL A GWIRFODDOLI AMGYLCHEDDOL ER BUDD LLESANT

Mae prosiect Dyffryn Gwyrdd yn arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd sy'n cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol. Mae'r gwaith yma'n cynnwys sesiynau garddio, teithiau cerdded a mwy. Yn ystod 2022, mae'r tîm wedi magu perthynas ag asiantaethau eraill yn lleol i gynnig sesiynau er budd llesiant. Mae'r gwaith yma'n cynnwys gweithio gyda Coed Lleol yng ngardd Ffrancon, cydweithio gyda Partneriaeth Cwm Idwal a gyda'r feddygfa leol i hyrwyddo teithiau llesiant.

### Tyfu a phlannu cymunedol

Mae'r rhandiroedd ym Mhlas Ffrancon wedi mynd o nerth i nerth gyda 20 o randiroedd wedi eu datblygu gan breswylwyr lleol. Yn ogystal â'r rhandiroedd, mae 8 o leiniau tyfu llysiau a gwely perlysiâu wedi eu datblygu yng Ngerddi Ffrancon, ynghyd â pherllanau cymunedol ar 9 safle ar draws y dyffryn (Clwb Rygbi, cae chwarae Rachub, Canolfan Tregarth, Bro Syr Ifor, Maes Bleddyn, llwybr drwy Fferm Pandy, Ysgolion Dyffryn Ogwen ac Abercaseg, Gardd Ffrancon, ac ochr ffordd Penffriddoedd). Pan mae cynnyrch ar gael, mae'n cael ei rannu gyda Pantri Pesda. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd sesiynau garddio cymunedol wythnosol yng Ngardd Ffrancon, ac yn ychwanegol, gweithdy plannu basgedi crog i'r gegin, a sesiynau adeiladu a chreu compost. Cynhaliwyd hyfforddiant pladuro yn ogystal â digwyddiadau rhannu hadau a rhai cymdeithasol i ddod â'r cynhyrhwyd at ei gilydd.

Yn ystod yr haf, roedden ni'n cydweithio gyda Coed Lleol i gynnal rhaglen 6 wythnos o sesiynau tyfu bwyd i bobl ar gyfeiriad drwy bresgripsiwn gwyrdd, ac yn hwyluso i famau ifanc a'u plant gyfarwydd yn y gerddi yn ystod y gwyliau.



*Rhandiroedd a thyfwyr cymunedol Gerddi Ffrancon*



*Rhandiroedd a ffa Gerddi Ffrancon*

Mae'r Swyddog Llesiant ac Amgylchedd hefyd wedi bod yn gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol i barhau i arddio yng ngardd Tan Twr a Llys Dafydd. Bu Llys Dafydd ynghau am gyfnod oherwydd iechyd a diogelwch ond edrychwn ymlaen i atygodi'r gwlaau tyfu cymunedol yno yn ystod 2023. Yn ogystal â'r ardaloedd hyn, gwnaed gwaith hefyd yng nghae chwarae Tal y bont gan osod mainc a phlanhigion i annog peillio a bioamrywiaeth yno. Ym mis Ionawr 2022, bu'r tim yn cydweithio gyda Partneriaeth y Carneddau i blannu coed yng Nghlwb Rygbi Bethesda.

#### **Teithiau cerdded er budd llesiant**

Ym mis Tachwedd 2022, dechreuodd y Swyddog Llesiant ac Amgylchedd gynnal cyfres o deithiau cerdded byr lleol i ddod â phobl allan o'u tai na fyddai'n mynd allan fel arall. Denodd y daith gyntaf drwy Barc Meurig griw o 7 a phawb yn mwynhau'r cwmni a'r awyr iach, a'r gorffen gyda phanad yn Caffi Seren.

Adborth un o fynychwyr y teithiau cerdded –

*“Roedd hi'n dro bach hyfryd ac wedi fy helpu fi fynd allan a gwerthfawrogi lle dan ni'n byw.”*



*Sesiwn Tryd am Dro ym Mharc Meurig*

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Prosiectau tyfu cymunedol a gwirfoddoli amgylcheddol er budd llesiant

| Gweithgaredd                                                                                                                                                                             | Targed Allbwn                                                                                           | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Deilliannau Byr Dymor Wedi eu Cyflawni                                                                                                                                                                                                       |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p><b>Prosiect Dyffryn Gwyrdd i arwain sesiynau llesiant a'r amgylchedd yn cyfuno iechyd corfforol a gweithredu amgylcheddol (e.e. Sesiynau Efeicio a Sesiynau Plannu Cymunedol)</b></p> | <p>50 o sesiynau llesiant a'r amgylchedd wedi eu cynnal.</p>                                            | <p>65 sesiynnau garddio unwaith yr wythnos ers mis Mai, gweithdy beics unwaith yr wythnos ers diwedd Gorffennaf a sesiynnau casglu sbwirel rheolaidd. Yn ogystal cynhaliwyd digwyddiadau ychwanegol megis plannu hadau a theithiau beicio fel rhan o ddigwyddiadau eraill megis Cynefin a Chymuned.</p>                                                                                            | <p>Trigolion mwyaf bregus ein cymuned yn cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd.</p> <p>Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli amgylcheddol yn dod a buddion llesiant ac amgylcheddol.</p> <p>Mwy o ardaloedd gwyrdd yn cael eu cynnal yn lleol.</p> |
| <p><b>Ardaloedd gwyrdd cymunedol newydd i gael eu adnabod a'u datblygu.</b></p>                                                                                                          | <p>3 ardal werdd gymunedol wedi eu datblygu a gardd Llys Dafydd wedi ei adfywio'n natur gyfeillgar.</p> | <p>20 rhandir a gardd gymunedol wedi eu datblygu yng Ngerddi Ffrancon ger Plas Ffrancon.</p> <p>Yn ogystal â Gardd Tan Twr a Llys Dafydd a ddatblygwyd yn 2020-21 rydym wedi plannu perllan ar 9 safle yn Nyffryn Ogwen a gardd i annog peillio yng Nghae Chwarae Talybont.</p> <p>Rydym hefyd wedi hau blodau gwyllt mewn 2 stad dai a thir y clwb Rygbi a phlannu gardd fach mewn stad o dai</p> |                                                                                                                                                                                                                                              |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |                                                                                                                   |  |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  | arall. Mae'r prosiect hefyd wedi ariannu dau arddiwr lleol i ddatblygu gerddi a rhandiroedd yn yr ysgolion lleol. |  |
| <b>TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ôl troed carbon y Dyffryn yn lleihau.</li> <li>- Cydweithio agosach gydag asiantaethau eraill sy'n ceisio atal tlodi tanwydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |  |                                                                                                                   |  |
| <b>CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –</b><br>Mae nifer o'n prosiectau yn lleihau ôl troed carbon y Dyffryn. Mae'n holl fflyd yn gerbydau trydan gyda rhai ohonynt yn cael eu pweru gan baneli solar Ynni Ogwen. Mae'r cerbydau wedi teithio dros 40,000 o filltiroedd ar danwydd trydan dros y 2 flynedd ddiwethaf sy'n arbediad o 181g o garbon fesul kilomedr o yrru. Mae hyn yn gyfwerth â 11,651KG o arbediad carbon. <p>Mae tîm Dyffryn Gwyrdd wedi cynnal nifer o sesiynau gwybodaeth i drafod effeithlonrwydd ynni a mae Warden Ynni prosiect Sero Net Gwynedd sy'n gyflogedig i'r Bartneriaeth hefyd yn cynorthwyo cartrefi o safbwynt ynni. Mae'r Warden wedi ymgysylltu â channoedd o gartrefi ar draws Dyffryn Ogwen a rhoi cyngor un i un i 208 o gleientiaid. Mae bagiau effeithlonrwydd ynni wedi eu dosbarthu i holl ddisgyblion y dalgylch hefyd. Mae hyn yn helpu i newid ymddygiad teuluoedd yn ogystal â galluogi cartrefi i fod yn fwy ynni effeithlon.</p> |  |                                                                                                                   |  |

## TACLO NEWID HINSAWDD

### GwyrddNi

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau yn bartner ym mhrosiect GwyrddNi – prosiect dwy flynedd a ariennir gan y Loteri Genedlaethol i sefydlu cynlluniadau newid hinsawdd ym Mhen Llyn, Dyffryn Nantlle, Bro Ffestiniog, Dyffryn Peris a Dyffryn Ogwen. Arweinir y prosiect gan DEG (Datblygiadau Egni Gwledig) a mae Partneriaeth Ogwen yn aelod o'r Grwp Llywio. Mae Cydlynnydd Cymunedol i Ddyffryn Ogwen wedi dod a 50 o bobl leol ynghyd i ffurfio Cynulliad Cymunedol i drafod Newid Hinsawdd yn Dyffryn Ogwen. Mae'r cynulliad wedi cyfarfod 3 gwaith bellach gyda bwriad i gyhoeddi cynllun gweithredu i daclo newid hinsawdd.

Dyfyniad gan aelod o Gynulliad Dyffryn Ogwen -

*"Dwi byth wedi neud unrhyw beth fel hyn o'r blaen. A dwi reit nyrfys, dwi ddim di siarad efo pobl newydd ers blynyddoedd."*

Ac ar ôl y Cynulliad cyntaf...



*"Mae'n roi lot o hyder i fi i weld gymaint o bobl sy'n frwdfrydig am y pwnc. Dwi di cyfarfod lot o bobl, a mae'n rili diddorol gweld gymaint o wahanol perspectives sy na, mae na lot o bobl efo profiadau rili diddorol."*

### **Bws Gwennol Trydan**

Yn dilyn llwyddiant ein cais i gronfa Ewropeaidd 'Cadwyni Cyflenwi a Chydweithredu' yn 2021, sefydlwyd gwasanaeth bws gwennol trydan i gludo twristiaid i fyni i Nant Ffrancon dros gyfnod yr haf eleni. Penodwyd tim o staff i ddatblygu'r gwasanaeth hwn gyda dau brif yrrwr cymunedol. Bu'r gwasanaeth yn boblogaidd ymysg twristiaid a phobl leol ond mae cryn waith i'w wneud eto i godi ymwybyddiaeth pobl o argaeledd y bws ar gyfer y tymor twristaidd nesaf. Fel gwasanaeth newdd, roedd y bws yn ymdrech i leihau'r problemau parcio i fyni ger Llyn Ogwen ond hefyd yn ymgais i ddod â budd economaidd i Fethesda wrth i dwristiaid barcio yn y pentref. Bu rhai ymwelwyr yn parcio ym maes parcio Clwb Peldroed Bethesda i'r perwyl hwn. Gan fod y bws yn fws trydan, mae'r prosiect yn gynllun sy'n tarro pob un o amcanion Partneriaeth Ogwen – yn amgylcheddol, cymunedol ac economaidd. Ers diwedd y tymor twristaidd, mae'r bws wedi cael defnydd helaeth gan ein cymuned yn cynnwys teithiau gan ysgolion, clybiau chwaraeon a theithiau cymdeithasol i'r henoed.



*Colin Jeffreys ac Efan Jones – Gyrrwyr Cymunedol Bws Ogwen*

### **Beics Ogwen**

Yn ystod 2022, llwyddwyd i ddenu cyllid ychwanegol i ehangu ein gwaith gyda beicio er budd llesiant. Gyda grant Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru, penodwyd Cydlynnydd i brosiect Beics Ogwen – prosiect i hyrwyddo defnydd o feiciau yn ein cymuned. Yn ogystal â grant i gyflogi'r cydlynnydd, prynwyd ffylod fechan o feiciau trydan i'w llogi yn lleol. Mae'r beiciau trydan wedi cael eu llogi i dwristiaid ond maent hefyd yn cael eu defnyddio gan bobl leol er budd iechyd a lles. Rhan fawr o waith



Beics Ogwen hefyd yw datblygiad y gweithdy beics, ble mae croeso i aelodau o'r gymuned alw heibio i ddysgu sut i drin a thrwsio beics. Ers cychwyn y prosiect Teithio Llesol gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae 139 o drigolion lleol wedi mynychu sesiynau beicio er budd llesiant yn cynnwys 26 wedi mynychu sesiynau beicio hygyrch. Mae 70 wedi mynychu digwyddiadau trwsio beics yn y gweithdy a mae 68 wedi menthyg beics gyda'r rhain yn gyfuniad o fenthyciadau masnachol a lleol. Mae nifer o'r trigolion lleol sydd wedi menthyg beic trydan, wedi mynd ymlaen i brynu beic trydan eu hunain. Ar hyn o bryd, mae 15 o wirfoddolwyr yn helpu gyda'r prosiect.



*Un o fenthycwyr beiciau trydan Beics Ogwen. Bu Dee yn teithio ar hyd Lon Las Ogwen i Fangor i wneud ei siopa gyda'r trailer ar gefn y beic.*

### **Petha**

Yn dilyn tendr llwyddiannus dan arweiniad Partneriaeth Ogwen ar ran consortiwm Dolan, penodwyd Cydlynnydd i Lyfrgell y Pethau ym mis Medi 2021. Ers hynny, rydym wedi sefydlu prosiect Petha gan ddechrau llogi eitemau o lyfrgell Bethesda. Mae catalog o eitemau wedi eu cofrestru ar system My Turn a mae Swyddog Catalogio wedi ei phenodi i gynorthwyo gyda'r gweinyddu. Byddwn yn cydweithio gyda Chwmni Bro Ffestiniog, Siop Griffiths a Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd i ehangu'r prosiect i Benygroes a Blaenau Ffestiniog yn y flwyddyn newydd gyda'r prosiect yn cefnogi'n pwyslais ar leihau tlodi, lleihau prynwriaeth (consumerism) ac annog diwylliant o rannu yn ein cymunedau. Mae 158 o eitemau ar y catalog ar hyn o bryd a mae 30 o aelodau yn Nyffryn Ogwen. Menter arall a ddechreuwyd, ac y gobeithiwn ei pharhau dros y 12 mis nesaf yw'r cynllun ail-ddefnyddio gwisgoedd ysgol. Daeth criw bychan, gweithgar o wirfoddolwyr at ei gilydd i

gasglu, golchi a smwddio'r dillad ac fe rannwyd rheini gyda theuluoedd lleol trwy system logi Petha. Bellach mae cyflenwad o'r dillad hefyd ar gael ym Mhantri Pesda. Roedd y cynllun gwisgoedd ysgol wedi arbed 740kg o garbon trwy annog ail-ddefnyddio yn hytrach na phrynu o'r newydd.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Cyngor Gwynedd, Benthg Cymru a phartneriaid Dolan i ddatblygu Petha tua'r dyfodol.



*Bag 'Petha' – prosiect Llyfrgell y Petha Dolan*

### **Gofod Gwneud**

Gyda chefnogaeth grant Economi Gylchol gan Gyngor Gwynedd, sefydlwyd Gofod Gwneud a Thrwsio yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae'r offer yn cynnwys nifer o eitemau yn cynnwys argraffydd 3D. Ar ôl cyfnod heb dechnegydd i'r Gofod, rydym newydd ail-agor ym mis Tachwedd 2022 gyda sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal rhwng rwan a'r Nadolig. Yn ogystal â'r sesiynau cyhoeddus, rydym wedi gweithio gyda ysgolion lleol gan gyflogi arbenigwyr lleol i helpu plant a phobl ifanc i greu nwyddau. Mewn cydweithrediad a Siop Ogwen, roedd y pobl ifanc yn creu cynnyrch oedd wedyn ar gael i'w werthu yn y Siop.

Rydym yn gobeithio parhau i gynnal y Gofod Gwneud yn 2023 gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd trwy gronfeydd Economoï Gylchol newydd.

### CRF Adra Net Sero Hwynedd

Bu Partneriaeth Ogwen hefyd yn bartner mewn cais llwyddiannus i gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig dan arweiniad Cymdeithas Dai Adra. Yn ystod 2022, rydym wedi cyd-arwain pecyn gwaith i helpu i wella effeithlonrwydd ynni dros 30 o ganolfannau cymunedol ar draws Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwelliannau cyfalaf i 5 hwb cymunedol yn cynnwys safle canolfan Dyffryn Gwyrdd yma ym Methesda gyda gosodiad ffenestri dwbl newydd i wella effeithlonrwydd ynni'r safle. Roedd y prosiect hefyd yn cyllido rol Warden Ynni i Bartneriaeth Ogwen gyda'r Warden yn helpu nifer o gartrefi ar hyd a lled y Dyffryn.

| Targedau Llwybr Trawsnewid – Taclo Newid Hinsawdd                                                                  |                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|
| Gweithgaredd                                                                                                       | Targed Allbwn                                                                 | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                                                                                                                                                                                                        | Deilliannau Tymor Byr wedi eu Cyflawni           |
| <b>Prosiect GwyrddNi i ddechrau yn 2021 gyda bwriad i ddatblygu Cynulliad Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen.</b>     | Cynulliad Newid Hinsawdd wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. | Cynulliad Cymunedol i atal Newid Hinsawdd yn Nyffryn Ogwen wedi ei sefydlu ac wedi cyfarfod 3 gwaith.                                                                                                                                                                | Pobl leol yn cydweithio i daclo newid hinsawdd   |
| <b>Prosiectau amgylcheddol newydd yn cael eu sefydlu yn cynnwys bws gwennol trydan a cherbyd trydan cymunedol.</b> | Gwasanaeth bws gwennol a cherbydau trydan wedi ei sefydlu.                    | Gwasanaeth Bws Gwennol wedi ei sefydlu yn haf 2022.<br><br>Cynllun Beics Ogwen wedi ei sefydlu.<br><br>Cynllun Petha wedi ei sefydlu.<br><br>Partner yng nghynllun Sero Net Gwynedd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a chanolfannau cymunedol ar draws Gwynedd. | Llai o allyriadau carbon yn y Parc Cenedlaethol. |
| <b>TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR</b>                                                                                   |                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                  |
| - Dyffryn Ogwen yn arwain o ran datblygu cynladwy cymunedol.                                                       |                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                  |

- Math newydd o dwristiaid yn dod i'r ardal ac yn cefnogi'r economi leol.

#### **CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –**

Mae'r deilliannau tymor byr o leihau allyriadau yn sicr yn cael ei wireddu trwy ein defnydd o gerbydau a beiciau trydan a mae'n gwaith ni hefyd wedi llwyddo i ddod ag ystod eang o bobl at ei gilydd i daclo newid hinsawdd, boed trwy ein prosiectau neu trwy'r Cynulliad Cymunedol ar yr hinsawdd sydd wedi ei sefydlu trwy brosiect GwyrddNi.

O ran impact hirdymor y gwaith yma, rydym yn parhau i weithio tuag at hyn a gellir dweud fod cymunedau eraill yn sicr yn troi tuag atom am gyngor neu ysbrydoliaeth yn y maes cynladwyedd. Rydym yn un o astudiaethau achos Cyfeillion y Ddaear a rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth am ein gwaith cynladwyedd mewn nifer o gynadleddau a digwyddiadau cenedlaethol.

Rydym yn gobeithio y bydd Bws Ogwen a chynllun Beics Ogwen yn denu math newydd o dwristiaid i'r ardal. Mae gwaith marchnata ar y cyd gyda'r Parc Cenedlaethol ar y gweill a rydym yn aelod o Weithgor Strategaeth Twristiaeth Gynladwy Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd.

## **IAITH A DIWYLLIANT**

### **Cynnal y Gymraeg**

Mae'r Gymraeg yn parhau yn rhan naturiol ac organig o waith Partneriaeth Ogwen. Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y cwmni a Chymraeg yw iaith weinyddol y prosiectau newydd yr ydym yn eu sefydlu. Rydym yn cynnig cyfleoedd cyflogi a gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg i bobl leol ac yn ymhyfrydu yn y ffaith bod nifer o ddysgwyr yn gwirfoddoli ac yn gwella eu Cymraeg efo ni. Yn ystod 2022, bu dau aelod o'n staff ar gwrs Gloywi Iaith i Nant Gwrtheyrn gan godi eu hyder ieithyddol. Mae'r Prif Swyddog yn aelod o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg a Bwrdd Arweiniol Menter Iaith Gwynedd gan rannu ei arbenigedd o ran cynnal y Gymraeg yn gymunedol. Ym mis Hydref 2022, rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad yng nghynhadledd Ewropeaidd yr NPLD (Network for the Promotion of Language Diversity) yng Nghaerdydd gan rannu gwybodaeth am sut mae'n gwaith fel menter gymdeithasol yn cynnal y Gymraeg er nad yw'r gwbl greiddiol i'n gwaith.





*Meleri Davies – Prif Weithredwr Partneriaeth Ogwen yn trafod ein gwaith yng nghynhadledd Ewropeaidd yr NPLD yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2022*

### **Siop Ogwen**

Er fod y siop yn endid cyfreithiol annibynnol, mae'r Bartneriaeth yn parhau i reoli gweinyddiaeth y siop ac i gefnogi'r Swyddog Datblygu o ran rheoli rhaglen waith a gweithgareddau'r siop. Mae'r siop yn cyfrannu tuag at hyfywedd y Stryd Fawr ond mae hi hefyd yn bwysig o ran hyrwyddo'r iaith a llenyddiaeth Gymraeg. Yn ogystal â gwerthu llyfrau a chrefftau, mae'r Siop hefyd yn mynd allan i'r gymuned gan gynnal gweithdai celf a stori i blant. Cynhaliwyd 5 sesiwn celf a stori yn y gymuned yn ystod 2022 yn cynnwys sesiynau loga i bant yng Ngerddi Ffrancon a sesiynau fel rhan o wyl Gwenllian. Gyda chefnogaeth arian Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, arweiniodd Siop Ogwen ar gynllun i baentio ffenestri siopau'r Stryd Fawr fel ymdrech i ddenu mwy o bobl i gefnogi'r Stryd Fawr.

Trefnwyd nosweithiau llofnodi llyfrau hefyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys sesiwn gyda'r awdur Dewi Prysor a digwyddiad llenyddol ar y cyd a Gwyl Ara Deg.

**Sesiynau Celf a Stori Haf '22**  
Dyffryn Ogwen

**Am ddim**

**19/07/2022 10:30am**  
**Gerddi Ffrancon, Bethesda**  
Dewch i ymuno mewn sesiwn ioga arbennig gyda awdur y llyfr Y Goeden Ioga, Leusa Mererid. Hefyd cyfle i greu mwgwd o brif gymeriadau'r llyfr.

**29/07/2022 1:00pm**  
**Pantri Pesda**  
Dewch i gael stori Y Soddgarw yn Pantri Pesda a chyfle i greu bathodyn eich hun. A falla bydd rhywbeth blasus i'w gael i fwyta gan Liws...

**05/08/2022 1:00pm**  
**Canolfan Cefnfaes**  
Cyfle arbennig i blant y Dyffryn weithio gyda'r artist leol Hannah Coates i greu creaduriaid tanforol gyda deunyddiau ailgylchu. Bydd pris arbennig ar y llyfr Gwyddonadur y Moroedd Pwysig lawn a llyfrau eraill yn ymwneud â'r môr ar y diwrnod.

**09/08/2022 1:00pm**  
**Parc Meurig, Bethesda**  
Bydd yr awdures Leusa Mererid yn dod lawr i Barc Meurig i ddarllen ei stori ioga newydd, Y Wariar Bach. Bydd cyfle hefyd i greu ychydig o gelf amgylcheddol o ddameidiau o natur.

Bydd cynnig arbennig ar brisiau llyfrau plant yn ystod pob un o'r sesiynau  
**Croeso mawr i bawb, dim angen archebu lle**  
Welsh children's books Story and Art sessions. Welcome to all

*Gweithgareddau Celf a Stori Siop Ogwen – Haf 2022*

## Gŵyl Gwenllian

Gyda chefnogaeth Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, trefnodd Partneriaeth Ogwen weithdai, darlithoedd a theithiau cerdded i goffhau'r Dywysoges Gwenllian ym mis Mehefin 2022. Roedd y gweithgareddau'n gofnod o fywyd Gwenllian ond hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth pobl leol am hanes y Tywysogion Cymreig a'r cysylltiadau lleol. Cafwyd darlith gan y Prifardd Ieuan Wyn ar hanes y Dywysoges gyda 50 o fynychwyr ar y noson yn y Clwb Rygbi. Trefnwyd taith dan arweiniad cwmni Anelu i gopa Carnedd Gwenllian a thaith llai heriol ar hyd y Lon Las yng ngolwg y mynyddoedd hefyd. Daeth plant a theuloedd at ei gilydd hefyd ar gyfer gweithdy celf i blant i goffhau'r Dywysoges Gwenllian.



# Gŵyl Gwenllian

## Darlith Gwenllian

gan Ieuan Wyn

Nos Wener, Mehefin 10fed am 7 o'r gloch  
Clwb Rygbi Bethesda



Bydd y ddarlith yn mynd â  
ni i Wynedd dros 700  
mlynedd yn ôl, pan oedd  
Gwynedd yn cynnwys  
gogledd Cymru i gyd - o  
Ynys Enlli i afon Dyfrdwy y  
tu allan i Gaer.

Tocynnau: £5

Cysylltwch â Lowri: [lowri@ogwen.org](mailto:lowri@ogwen.org)  
07395544490

These are Welsh medium bilingual events. Translations will be available at the lecture.



PARTNERIAETH TIRFOD Y  
CARNEDDAU  
LANDSCAPE PARTNERSHIP



*Darlith y Prifardd Ieuan Wyn yng Ngŵyl Gwenllian 2022*



*Taith gerdded i gopa Carnedd Gwenllian*

### **Cynefin a Chymuned – Gŵyl Mawr Y Rhai Bychain**

Mewn partneriaeth a Neuadd Ogwen, rhoddwyd darlithoedd a theithiau cerdded ymlaen yn Neuadd Ogwen ym mis Hydref 2022. Roedd y darlithoedd yn barhad o ŵyl Cynefin a Chymuned 2021 gyda'r darlithoedd eleni'n canolbwyntio ar Ferched Dyffryn Ogwen gyda chyflwyniadau am hanes Côr Merched y Penrhyn a hanes suffragettes Dyffryn Ogwen.



*Gweithdy Celf i blant yng Ngwyl Cynefin a Chymuned*

### **Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg gan Fusnesau Lleol**

Mae polisi iaith Partneriaeth Ogwen yn gwbl gadarn a rydym hefyd yn cymryd pob cyfle i annog defnydd gan fusnesau a partneriaid yn lleol. Mae hyn yn cynnwys helpu busnesau lleol i greu cynnwys dwyieithog ar gyfer cyfeirlyfr busnesau [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru) a thudalennau Cadwyn Ogwen ar wefan yr Open Food Network. Mae dros 50 o fusnesau ar y 2 blatfform digidol yma.



| Targedau Llwybr Trawsnewid – Iaith a diwylliant                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                             |                                                                                                                                                                                           |                                                             |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|
| Gweithgaredd                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Targed Allbwn                                                                                               | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                                                                                                                             | Deilliannau Tymor Byr Wedi eu Cyflawni                      |
| Parhau i gynnal gweithleoedd, cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ogwen.                                                                                                                                                                                                        | 3 gweithle cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal gan Bartneriaeth                                               | Swyddfa Ogwen, Swyddfa Dyffryn Gwyrdd, Pantri Pesda a safle Canolfan Cefnfaes yn weithleoedd cyfrwng Cymraeg i staff Partneriaeth Ogwen.                                                  | Mwy o weithleoedd cyfrwng Cymraeg.                          |
| Parhau i gefnogi datblygiad Siop Ogwen – siop lyfrau Gymraeg a chrefftau ar y Stryd Fawr Bethesda.                                                                                                                                                                                                         | Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ar y Stryd Fawr a chynyddu gwerthiant arlein ac mewn marchnadoedd lleol. | Siop Ogwen yn parhau i fod ar agor ac yn gwerthu ar lein ar Cadwyn Ogwen ac mewn marchnadoedd Nadolig lleol.                                                                              | Mwy o gyfleoedd i weithio yn Gymraeg                        |
| Arwain prosiectau diwylliannol perthnasol e.e. dathliadau 200 mlwyddiant Bethesda                                                                                                                                                                                                                          | 5 digwyddiad/gweithgaredd treftadaeth bob blwyddyn                                                          | 10 digwyddiad/gweithgaredd diwylliannol/treftadaeth yn 2021 a 12 digwyddiad yn 2022.                                                                                                      | Pobl lleol yn cael cyfle i ddathlu treftadaeth a diwylliant |
| Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau lleol                                                                                                                                                                                                                                                            | 50 o fusnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar ogwen.cymru a Cadwyn Ogwen.                                         | Mae 50 busnes ar Ogwen.cymru gyda disgrifiad cwmni dwyieithog. Mae plattform Cadwyn Ogwen bellach wedi symud i wefan yr Open Food Network a mae pob cynhyrchwr yn defnyddio'r ddwy iaith. | Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan fusnesau.                    |
| <b>TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Normaleiddio'r Gymraeg fel iaith gwaith</li> <li>- Codi hyder pobl i ddefnyddio'u Gymraeg yn y gwaith.</li> <li>- Cynnal y Gymraeg a'r diwylliant yn lleol</li> <li>- Mwy o statws i'r Gymraeg ymysg y sector fusnes.</li> </ul> |                                                                                                             |                                                                                                                                                                                           |                                                             |
| <b>CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –</b>                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                             |                                                                                                                                                                                           |                                                             |

Mae'r deilliannau tymor byr o yn sicr yn cael eu gwireddu gyda pholisi iaith cadarn a mesurau i gefnogi defnydd o'r Gymraeg gan Bartneriaeth Ogwen. Y Gymraeg yw iaith weinyddol a gweithredol naturiol Partneriaeth Ogwen a rydym yn cefnogi taith ieithyddol ein staff gyda hyfforddiant gloywi iaith. Rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau diwylliannol ac yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan y sector fusnes. Rydym yn cyfeirio busnesau at wasanaethau cefnogol Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ac yn helpu gyda man gyfieithiadau yn ôl y galw. Mae'n pendantrwydd ieithyddol hefyd yn gadarn gyda'n staff yn cyflwyno yn gwneud cyfweiliadau a chyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg i nifer o gynadleddau ar draws Cymru ac ar raglenni teledu Prydeinig megis Countryfile a fideo ymgyrchol Cyfeillion y Ddaear Prydain.

# ECONOMI

## CEFNOGI BUSNESAU BACH A CHANOLIG AC ADFYWIO'R STRYD FAWR

### Eiddo

Mae ein portffolio eiddo yn gyfuniad o adeiladau fel a ganlyn:

- Adeiladau rydym wedi'u prynu trwy grant a/neu fenthyciad a/neu reserfau Partneriaeth Ogwen (e.e. 26 a 27 Stryd Fawr ac Adeilad y Spar)
- Adeiladau rydym yn gyfrifol amdanynt trwy gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda
- Adeiladau rydym â phrydles arnynt gan Gyngor Sir Gwynedd (Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen a Chanolfan Cefnfaes)

Yn ystod 2022, rydym wedi ymestyn prydles adeilad Canolfan Cefnfaes i brydles 10 mlynedd ac wedi prynu ased newydd sef adeilad y Spar sy'n gyfuniad o ofod masnachol a fflat hunangynhaliol efo tenant.

### Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu unedau ar Stryd Fawr Bethesda dan gytundeb 'beneficial ownership' gyda Chyngor Cymuned Bethesda. Mae pob uned fasnachol yn llawn ac mae'r tenantiaid yn cynnwys:

Cwrw Ogwen – cwmni lleol sy'n bragu cwrw

Cwmni Bwyd Môr Menai – busnes bwyd môr lleol

Siop 55 – siop nwyddau antiques sy'n is-brydlesu gan Gwmni Bwyd Môr Menai

Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law

Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –

9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan

Stiwdio Ffram – cwmni lleol sy'n fframio lluniau.

Mae 6 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol a mae unedau masnachol yn cael eu rhentu allan yng Nghanolfan Cefnfaes. Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau rhedeg Partneriaeth Ogwen sy'n cynnwys cyflogi Gofalwr Eiddo un diwrnod yr wythnos.

### Cadwyn Ogwen

Cynllun cydweithredol i werthu, danfon a chefnogi cynnyrch lleol yn Nyffryn Ogwen yw Dyffryn Ogwen. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig yn 2020 gyda chefnogaeth busnesau lleol a grantiau cyhoeddus. Yn 2022 mae Cadwyn Ogwen wedi esblygu eto gyda



llwyddiant grant newydd i symud Cadwyn Ogwen i blatfform yr Open Food Network. Mae hyn wedi'n galluogi i barhau gyda swydd Cydlynnydd Cadwyn Ogwen yn rhan amser ac i gydweithio â hybiau bwyd eraill yn yr ardal. Rydym hefyd wedi cael cefnogaeth grantiau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU i gael cefnogaeth rheolaeth prosiect a marchnata i'r cynllun. Yn ystod 2022, gwnaed dros 600 o ddanfoniadau cynnyrch lleol i gartrefi yn y dyffryn. Mae hyn hanner y nifer danfoniadau cyfatebol yn 2021. Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau ym mhatrymau siopa pobl leol wrth i gyfyngiadau Covid-19 godi yn yr ardal. Yn ogystal â'r siop arlein, rydym hefyd yn cydweithio'n agos gyda datblygiad newydd yn yr ardal sef datblygiad Llaethdy Gwyn gan gwmni caws Cosyn Cymru. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni ddatblygu hwb bwyd newydd ym mlaen y Llaethdy ar gyrion Stryd Fawr Bethesda gan roi cyfleoedd newydd i dargedu'r farchnad dwristaidd.


Bu cynllun Cadwyn Ogwen yn lwyddiant mawr yn ystod y cyfnod clo gan ddangos gallu Partneriaeth Ogwen i ymateb i anghenion ein cymuned a chefnogi'r sector breifat a byddwn yn cadw'r pwyslais hwnnw ar hwyluso a chefnogi wrth ddatblygu'r cynllun tua'r dyfodol.

### **Gwasanaethau Cefnogi Busnesau a Mentrau eraill**

Rydym yn parhau i gynnal a datblygu ffrydiau incwm newydd a dulliau o gefnogi busnesau a sefydliadau lleol yn Nyffryn Ogwen. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu gwasanaeth cyllid i Gwmni Tabernacl Bethesda Cyf a Chlwb Rygbi Bethesda. Arweinir y gwaith yma gan Swyddog Cyllid proffesiynol a darperir gwasanaeth cadw llyfrau a chyflogres yn ôl y galw. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymgynghorol hefyd gyda Cynan Jones yn arwain contractau masnachol i fudiadau trydydd sector ar draws gogledd Cymru.

### **Gwefan [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru) a Chynllun WiFi Cymunedol**

Mae gwefan [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru) yn parhau fod yn adnodd i hyrwyddo gweithgarwch cymunedol a busnesau lleol yn ôl y galw ond nid oes gennym swyddog marchnata i arwain y gwaith yma ar hyn o bryd. Adlewyrchir hynny yn y ffigyrau sy'n ymweld â'r safle gyda 18,114 ymweliad o'i gymharu â 30,584 y flwyddyn flaenorol. Mae symud platfform Cadwyn Ogwen i wefan yr Open Food Network hefyd yn golygu bod cwsmeriaid yn mynd yn syth i'r wefan honno bellach.



Gwefan Gymunedol [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru)

### **Llechi, Glo, Cefn Gwlad**

Mae Partneriaeth Ogwen yn nhrydedd blwyddyn prosiect cenedlaethol arloesol o'r enw Llechi, Glo a Chefn Gwlad sy'n dod â 9 menter gymdeithasol o ardaloedd gwahanol o Gymru at ei gilydd. Gyda chefnogaeth y Rank Foundation a'r Loteri Genedlaethol, cefnogwyd 27 o brentisiaid cymunedol i weithio efo 9 menter gymdeithasol ar draws Cymru dros gyfnod o 3 mlynedd. Yn 2022, cyflogwyd Lowri Larsen fel Arweinydd Cymunedol Partneriaeth Ogwen a bu'n arwain prosiectau digidol. Fis Hydref, symudodd Lowri ymlaen i swydd newydd gyda Golwg 360. Yn ôl Lowri, ni fyddai wedi cael yr hyder i ymgeisio am y swydd honno oni bai am Bartneriaeth Ogwen. Mae'n destament i werth prosiectau fel Llechi, Glo a Chefn Gwlad ac ethos cefnogol Partneriaeth Ogwen.

Mae'r cynllun hefyd wedi bod yn fodd o gefnogi cydweithio rhwng mentrau cymdeithasol ar draws Cymru a bydd y berthynas hon yn parhau tua'r dyfodol er fod cynllun y Rank Foundation yn dod i ben.



*Ymweliad criw Llechi, Glo a Chefn Gwlad a Bethesda yn 2022*

## Targedau Llwybr Trawsnewid – Cefnogi busnesau bach a chanolig ac Adfywio'r Stryd Fawr

| Gweithgaredd                                                                                                | Targed Allbwn                                                      | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                       | Deilliannau Tymor Byr wedi eu Cyflawni |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|
| Prynu adeiladau gwag ar y Stryd Fawr i'w cadw mewn perchnogaeth leol a'u rhentu allan i fusnesau eraill neu | 90% o eiddo Partneriaeth Ogwen mewn defnydd trwy gydol y flwyddyn. | Mae 100% o eiddo masnachol Partneriaeth Ogwen yn llawn gyda tenantiaid. Rydym hefyd | Mwy o siopau ar agor ar y Stryd Fawr.  |

|                                                                                                             |                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                            |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|
| gynnal prosiectau ohonynt.                                                                                  |                                                                                                                           | yn rhentu gofod o fewn Canolfan Cefnfaes.                                                                                                                                                                                                             |                                                            |
| Datblygu gwasanaeth Cadwyn Ogwen – gwasanaeth archebu a danfon cynnyrch lleol mewn cerbyd trydan cymunedol. | 20 o fusnesau lleol yn gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen.                                                                 | Yn ystod 2021 a 22 mae dros 20 o fusnesau lleol wedi gwerthu ar blatfform Cadwyn Ogwen.                                                                                                                                                               | Cynhyrchwyr lleol efo 'outlet' lleol ar-lein i'w cynnyrch. |
| Darparu gwasanaethau cefnogi busnes ar lefel micro yn ein cymunedau                                         | Cydweithio neu gefnogi 30 o fusnesau lleol bob blwyddyn.                                                                  | Rydym yn cefnogi busnesau micro yn Nyffryn Ogwen trwy waith Cadwyn Ogwen a chynnal gwefan <a href="http://www.ogwen.cymru">www.ogwen.cymru</a> fel platfform hyrwyddo. Rydym hefyd wedi cynnig gwasanaethau cadw llyfrau i 3 chwmni lleol yn 2021-22. | Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu                            |
| Cynnal gwefan <a href="http://www.ogwen.cymru">www.ogwen.cymru</a>                                          | Cynyddu y nifer o fusnesau lleol sydd efo presenoldeb ar wefan <a href="http://www.ogwen.cymru">www.ogwen.cymru</a>       | Mae 50 busnes ar ogwen.cymru                                                                                                                                                                                                                          | Busnesau lleol yn tyfu a ffynnu                            |
| Trefnu gweithgareddau i adfywio'r Stryd Fawr yn cynnwys digwyddiadau yn Llys Dafydd                         | Cynnal 10 o ddigwyddiadau yn Llys Dafydd bob blwyddyn gan gofnodi cynnydd footfall y Stryd Fawr ar system fonitro Patrwm. | Oherwydd materion iechyd a diogelwch, mae Llys Dafydd wedi gorfod cau i'r cyhoedd ond mae Partneriaeth Ogwen yn cefnogi digwyddiadau yn Neuadd Ogwen a chynnal digwyddiadau ein hunain.                                                               | Mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr.                   |

#### TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR

- Pobl leol yn cefnogi busnesau lleol
- Busnesau micro lleol yn tyfu a ffynnu
- Buddsoddwyr preifat yn agor siopau yn yr ardal


#### CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –

Mae'r deilliannau tymor byr wedi eu cyflawni'n rhannol yn yr ystyr fod holl unedau busnes Partneriaeth Ogwen ar y Stryd Fawr yn llawn. Yn ystod 2022, mae uned newydd wedi agor yn 55 Stryd Fawr sef siop antiques sy'n is-brydlesu gan Gwmni Bwyd Mor Menai ein tenant yn 55-57 Stryd Fawr. Rydym ninnau wedi adleoli Pantri Pesda i 55 Stryd Fawr. Yn ogystal a'r adeiladau hyn,

rydym wedi prynu adeilad yr hen Spar sy'n rhan o'n gweledigaeth i adfywio'r Stryd Fawr. Mae busnesau newydd wedi agor ar y Stryd Fawr yn ystod 2022 ond mae ambell un wedi cau hefyd ac mewn cyfnod o ansefydlogrwydd economaidd, mae'n annodd denu mwy o fusnesau i agor yma ar hyn o bryd.

O ran sicrhau fod mwy o bobl leol yn cefnogi'r Stryd Fawr, mae dadansoddiad o ddata system PATRWM yn mynd i'n helpu i adnabod tueddiadau o ran cynnydd neu ostyngiad mewn nifer pobl ar y Stryd Fawr. Nid oes data digonol ar gael ar gyfer 2021 ond y diwrnod mwyaf poblog ar y Stryd Fawr yn 2022 oedd diwrnod Carnifal Bethesda. Ar hyn o bryd, mae cyfartaledd o 151 person ar y Stryd Fawr bob dydd ym Methesda.

Ymwelwyr Stryd Fawr Dyffryn Ogwen (patrwm.io)



Ein gobaith yw y bydd datblygiad canolfan Yr Hen Bost yn denu mwy o ymwelwyr i'r Stryd Fawr ymhen blynnyddoedd a byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo busnesau lleol a cheisio denu mwy o dwristiaid i gefnogi busnesau'r Stryd Fawr.

Mae Cadwyn Ogwen a gwefan [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru) yn gamau i gefnogi'r busnesau bach yn ein cymuned a mae Cadwyn Ogwen a Siop Ogwen yn meithrin busnesau bach lleol.

## ECONOMI WERDD

### Canolfan Cefnfaes

Er fod yr amserlen wedi llithro, mae'r gwaith adeiladu ar adain gymunedol adeilad Canolfan Cefnfaes yn parhau. Bydd ystafell gymunedol a chegin newydd ar y llawr uchaf ac ystafell gyd-weithio (co-working) a'n bwriad yw creu cyfleusterau cynnes a chlyd i'n cymuned eu defnyddio. Arianwyd y gwaith atgyweirio hwn trwy grant Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru.



Er y gwaith adeiladu, mae'r Ganolfan wedi parhau i fod yn gartref i brosiectau a busnesau lleol gyda Black Dragon Martial Arts, Eagle House a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau yn denantiaid i ni ar y safle. Braf yw gallu dweud hefyd fod y Clwb Ieuencid hefyd wedi ailgydio yn y sesiynau wythnosol ynghyd a sesiynau amrywiol gan gymdeithasau lleol.

Bydd gwedd 2 a 3 o'r prosiect i ddatblygu unedau busnes a byncws cymunedol yn cael eu datblygu yn y dyfodol yn ogystal â chydweithio gyda Ynni Ogwen i osod paneli solar ar do'r adeilad. Bydd cynnaladwyedd ac effeithlonrwydd ynni yn flaenoriaeth wrth ddatblygu'r gofod a mae system wresogi carbon isel wedi ei chynllunio ar gyfer yr eiddo. Rydym hefyd wedi gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y safle ble'r ydym yn gwefru Bws Ogwen.

### **Prosiectau Twristiaeth Gymunedol / Cynaliadwy**

Yn 2021, datblygodd Partneriaeth Ogwen becyn 'Cymunedoli Tai Gwyliau' ar ran Dolan yn trafod potensial prynu eiddo gwyliau a thai rhent gan ddefnyddio incwm y ty gwyliau i sybsideiddio'r tai rhent. Nid ydym wedi symud ymlaen i weithredu argymhellion yr adroddiad hwn ond rydym wedi bwrw ymlaen i ddatblygu prosiectau twristiaeth gymunedol eraill. Yn benodol, datblygiad Bws Ogwen a phryniant adeilad y Spar.

### **Yr Hen Bost (Spar)**

Ar y 31 o Fawrth 2022, prynodd Partneriaeth Ogwen adeilad y Spar ar Stryd Fawr Bethesda gyda chyfuniad o arian grant a buddsoddiad Partneriaeth Ogwen. Bwriad y Partneriaeth yw datblygu'r adeilad presenol i fod yn ofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth o safon fydd yn adnodd cymunedol a thwristaidd i'r ardal. Ein bwriad yw gwella'r cynnig cymunedol a thwristaidd a bydd y gofod yn cynnwys unedau busnes, bwyty a chanolfan dreftadaeth tri llawr. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio cyhoeddus i ddangos dyluniadau'r cwmni pensaernïol Pegwa a chael adborth y gymuned. Rydym hefyd wedi llythyru pob busnes ar y Stryd Fawr am y datblygiad. O ran cyllido'r gwaith datblygol, mae'r costau yn rhan o gais Ffyniant Bro sylweddol gan Gyngor Gwynedd a gobeithiwn glywed canlyniad y cais cyn diwedd 2022.



## Targedau Llwybr Trawsnewid – Economi Werdd

| Gweithgaredd                                                                                                                                      | Targed Allbwn                                                              | Cyflawniad erbyn Rhagfyr 2022                                                                                                                                                                           | Deilliannau Tymor Byr Wedi eu Cyflawni                                                                 |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Datblygu Canolfan Cefnfaes fel Canolfan Ragoriaeth</b><br>Cynladwyedd gyda gofod byncws, datblygu economaidd a gofod amlbwrpas i'w logi allan. | Canolfan Cefnfaes wedi ei adnewyddu erbyn Gwanwyn 2022.                    | Gwedd gyntaf o ddatblygiad Canolfan Cefnfaes bron a'i gwblhau sef datblygiad gofod cymunedol newydd. Bydd ceisiadau grant pellach yn cael eu gwneud ar gyfer gwedd 2 a 3 o'r prosiect.                  | Ased cymunedol wedi ei uwchraddio er budd ein cymuned, amgylchedd ac economi.                          |
| <b>Datblygu prosiectau twristiaeth Gynaliadwy a Chymunedol</b>                                                                                    | Prosiect Twristiaeth Gymunedol Dolan wedi ei ddatblygu erbyn Gwanwyn 2022. | Adroddiad Cymunedoli Tai Gwyliau wedi ei lunio ar ran Dolan. Prosiectau twristiaeth gynaliadwy eraill wedi eu datblygu – yn benodol, pryniant yr hen Spar i ddatblygu Canolfan Dreftadaeth yr Hen Bost. | Cymunedoli'r sector dwristiaeth yn lleol a lle'n bosibl, perchnogi rhai asedau twristaidd.             |
| <b>Paratoi ceisiadau grant i sefydlu bws gwennol trydan fyddai'n cludo ymwelwyr o Ddyffryn Ogwen i fyny i Nant Ffrancon ac yn ol.</b>             | Cynllun Bws Gwennol Trydan wedi ei sefydlu erbyn 2022.                     | Ceisiadau grant wedi llwyddo a gwasanaeth bws gwennol wedi ei sefydlu yn 2022.                                                                                                                          | Lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a chynyddu'r budd economaidd lleol gan dwristiaid i'r ardal. |

### TARGEDAU IMPACT HIR DYMOR

- Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth.

### CYRHAEDDIAD IMPACT HIR DYMOR –

Mae'r deilliannau tymor byr wedi dechrau cael eu cyflawni gyda gwaith ar wedd 1 prosiect datblygu Cefnfaes bron a'i gwblhau a datblygiad cynllun Bws Ogwen yn cyfrannu at gymunedoli'r diwydiant twristiaeth a lleihau problemau parcio yn Nant Ffrancon a dod a mwy o ymwelwyr i'r Stryd Fawr. Rhwng 21ain o Orffennaf - 30 o Hydref teithiodd 623 ar y gwasanaeth bws gwennol. Gobeithiwn gynyddu'r symiau yma wrth fynd i'r tymor twristaidd nesaf. Mae'n dull gweithredu wrth ddatblygu Bws Ogwen yn golygu hefyd fod adnodd twristaidd hefyd yn adnodd cymunedol, gyda'r bws yn cael ei ddefnyddio gan ein cymuned tu hwnt i'r cyfnodau twristaidd. Mae'r defnydd cymunedol yn cynnwys teithiau siopa i'r henoed, defnydd gan y Clwb Rygbi a mudiadau lleol eraill.

Wrth edrych ymlaen tua 2023, byddwn yn cymharu ffigyrau 'football' y Stryd Fawr ar system PATRWM i ddadansoddi a gweld os oes mwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal yn dilyn prosiectau fel Bws Ogwen.

Mae Cadwyn Ogwen a gwefan [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru) yn gamau i gefnogi'r busnesau bach yn ein cymuned a mae Cadwyn Ogwen a Siop Ogwen yn meithrin busnesau bach lleol. Cryfhau'r budd cymunedol ac amgylcheddol o dwristiaeth.

## Marchnata, Ymgysylltu a Chyhoeddusrwydd

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal dwy wefan [www.partneriaethogwen.cymru](http://www.partneriaethogwen.cymru) a [www.ogwen.cymru](http://www.ogwen.cymru)/ [www.ogwen.wales](http://www.ogwen.wales). Rydym hefyd yn cynnal cyfrifon Facebook - Ogwen360, Ynni Ogwen, Siop Ogwen, Dyffryn Gwyrdd, Beics Ogwen, Cadwyn Ogwen, Pantri Pesda a Petha gan ddiweddarau'r tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym hefyd gyfrifon Trydar @SiopOgwen a @YnniOgwen ac mae'r cyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei rannu rhwng staff craidd y Partneriaeth. Rydym hefyd wedi datblygu sianelau Youtube a sianel ar blatfform newydd [www.amam.cymru](http://www.amam.cymru).

Mae'r Partneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda mudiadau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau a rydym yn cynnal ymweliadau cyson â'n prosiectau. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys grwpiau cymunedol fel Action on Ely, People and Work, Canolfan Henblas ac ymweliadau gan wleidyddion yn cynnwys ymchwiliad Senedd Cymru i Asedau Cymunedol. Mae'n staff hefyd yn rhoi cyflwyniadau am ein gwaith mewn cynadleddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru a mae'n sefydliad yn cael ei broffilio mewn nifer o astudiaethau achos.

Fideo Cyfeillion y Ddaear Cymru am waith Partneriaeth Ogwen  
[https://www.youtube.com/watch?v=4w3\\_7J3YSjM](https://www.youtube.com/watch?v=4w3_7J3YSjM)

## Rhwydweithiau a Phrosiectau Partneriaethol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau yn aelod o Fwrdd Partneriaeth prosiect Partneriaeth y Carneddau ac rydym hefyd wedi bod ar grwpiau llywio lleol ar gyfer prosiect LleChi sy'n rhan o lwyddiant dynodiad safle treftadaeth y byd i'r broydd chwarelyddol. Yn fwy diweddar rydym yn aelodau o Grwp Buddion Safle Treftadaeth y Byd ac aelodau o Grwp Tasg a Gorffen Economi Ymweld Gwynedd a arweinir gan Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i gydweithio'n agos gyda Chwmni Bro Ffestiniog a Siop Griffiths dan faner DOLAN a mae'r rhwydwaith anghyfansoddedig yma'n llwyddo i ddenu grantiau ychwanegol i'r dair ardal.

Rydym hefyd yn aelodau o Rwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gwynedd ac yn cydweithio â mentrau ar hyd a lled Cymru.

## **Casgliadau a Symud Ymlaen**

Mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo i gyflawni targedau ein Llwybr Trawsnewid ar gyfer 2020-22. Rydym hefyd wedi dechrau gosod systemau mewn lle i fesur impact ein gwaith. Mae'n rheolwyr yn casglu data meintiol ac ansoddol ond rydym hefyd yn dechrau adnabod trefn i gasglu data am arbedion carbon ein prosiectau fydd yn ein helpu i fesul impact ehangach.

Ar gyfer y dyfodol, rydym yn gobeithio defnyddio arolwg Ardal Ni, Cyngor Gwynedd i'n helpu i lunio Llwybr Trawsnewid newydd y Bartneriaeth ar gyfer 2023 ymlaen. Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgynghori gyda'n cymuned a bydd y mewnbwn cymunedol hwn yn ein helpu i lunio'r Llwybr Trawnewid a datblygu ein gwaith.

Hoffai'r staff i gyd ddiolch i'r holl wirfoddolwyr ar ein Bwrdd a'r rhai sy'n helpu gyda'n prosiectau am eu cymorth a'u cefnogaeth.

MD 29/11/2022